

CYNGOR TREF BAE COLWYN
BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL
HEDDYCH HARDDWCH HEDDWCH

PECYN RECRIWTIO

Cynllun Cynefin
Place Plan
Colwyn

Croeso



Diolch i chi am ystyried ymuno â Chyngor Tref Bae Colwyn fel ein Clerc Cynorthwyol.

Mae'r Clerc Cynorthwyol yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith dyddiol y Cyngor, ac wrth sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon, proffesiynol a chroesawgar i gymunedau Llandrillo yn Rhos, Bae Colwyn a Hen Golwyn.

Mae hon yn swydd amrywiol sy'n cynnwys gwaith gweinyddol ar gyfer pwyllgorau a'r Cyngor, cyllid, materion cynllunio, diweddaru'r wefan, ymgymryd â dyletswyddau yn ymwneud â'r Maer, a threfnu digwyddiadau dinesig a chymunedol pwysig. Mae'n cynnig cyfle i'r ymgeisydd llwyddiannus gymryd rhan mewn agweddau amrywiol ar lywodraeth leol, a gweld yr effaith gadarnhaol y mae gwaith y Cyngor yn ei chael ar draws yr ardal.

Rydym yn chwilio am rywun sy'n drefnus, yn ddibynadwy ac yn hyderus wrth ddelio ag ystod eang o bobl a chyfrifoldebau.

Os ydych yn rhannu ein hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus ac yn dymuno gwneud cyfraniad ymarferol i'r gymuned leol, byddem yn falch iawn o dderbyn eich cais.

Dymunaf y gorau i chi.

Y Cynghorydd Greg Wynne, Maer y Dref 2026-27

Trosolwg o'r Cyngor Tref

Beth yw Cyngor Tref Bae Colwyn?

Cyngor Tref Bae Colwyn yw'r lefel fwyaf lleol o lywodraeth yn ein hardal. Fe'n ffurfiwyd ym 1995 yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol ac rydym yn gweithio ochr yn ochr â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Rydym yn cynrychioli tua 26,500 o drigolion ar draws chwe ward: Rhos, Dinarth, Rhiw, Glyn, Eirias a Colwyn — sy'n cwmpasu Llandrillo yn Rhos, Bae Colwyn (gan gynnwys Bae Colwyn Uchaf) a Hen Golwyn.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 24 o gynghorwyr etholedig sy'n gwneud penderfyniadau ar ran y gymuned.

Beth mae'r Cyngor Tref yn ei wneud?

Rydym yn canolbwyntio ar wasanaethau, mannau a bywyd cymunedol lleol, gan gynnwys:

- Parciau a mannau agored
- Dodrefn stryd (meinciau, biniau, cysgodfeydd bysiau, goleuadau, arwyddion)
- Cefnogi a chyllido digwyddiadau lleol
- Darparu grantiau i grwpiau a chlybiau cymunedol
- Rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio lleol

Rydym hefyd yn gweithredu fel llais i'r gymuned gan godi pryderon a lobïo am welliannau i wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gwasanaethau iechyd a'r heddlu.

Gweithio mewn partneriaeth

Mae'r Cyngor Tref yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid lleol ar brosiectau mwy — gan gynnwys adfywio, mentrau cymunedol a gwelliannau amgylcheddol.

Mae cynghorwyr hefyd yn cynrychioli'r Cyngor ar grwpiau lleol fel ysgolion, canolfannau cymunedol, sefydliadau amgylcheddol a rhwydweithiau busnes — gan ein helpu i aros mewn cysylltiad â'r hyn sy'n digwydd yn lleol.

Sut y gwneir penderfyniadau

Mae cyfarfodydd y cyngor ar agor i'r cyhoedd ac yn aml ar gael ar-lein, gan roi cyfle i drigolion weld gwneud penderfyniadau lleol ar waith. Cyhoeddir agendâu, cofnodion a dyddiadau cyfarfodydd ar ein gwefan.

Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd Corfforaethol

Bydd y Cyngor Tref, a etholwyd i wasanaethu tymor pum mlynedd tan fis Mai 2027, yn adolygu ac yn diweddaru ei weledigaeth, ei genhadaeth a'i werthoedd craidd yn ystod y blynyddoedd nesaf, yn dilyn mabwysiadu Cynllun Lle Colwyn yn ddiweddar. Bydd y rhai presennol yn parhau i fod yn berthnasol tan hynny:

Cenhadaeth

Rydym wedi ymrwymo i gynrychioli, i wrando ac i fod yn atebol i'r holl gymuned, i werthfawrogi ein treftadaeth, meithrin llesiant pawb ac i hybu amgylchedd ffyniannus a bywiog i'r genhedlaeth bresennol ac at y dyfodol.

Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw bod yn gymuned arfordirol fywiog, cynhwysol a gofalgar

I wneud hyn, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cymuned ac yn annog cydweithrediad, trafod syniadau hirdymor a bod yn arloesol i greu effaith gadarnhaol ar lesiant pawb sy'n naill ai'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â Bae Colwyn.

Ein Gwerthoedd Craidd:

Fel sail i'n gweledigaeth a'n cenhadaeth, mae gennym nifer o werthoedd craidd a adlewyrchir yn yr hyn a wneir gennym a'r hyn a ddywedir gennym. Ein nod yw bod yn ...

- **Moesegol**
- **Grymus**
- **Gonest a Dibynadwy**
- **Parchus**
- **Cynhwysol**
- **Gofalgar a Chyfrifol**

Ein Cynllun Corfforaethol: Y Cynllun Lle

Ein Cynllun Lle yw prif gynllun corfforaethol y Cyngor — mae'n amlinellu ein gweledigaeth hirdymor a'r camau rydym yn eu cymryd i'w gyflawni. Datblygwyd y cynllun ar y cyd â phobl leol, partneriaid a sefydliadau, er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r hyn y mae'r gymuned ei eisiau a'i angen.

Beth mae'r Cynllun Lle yn ei gynnwys?

Mae'r Cynllun Lle yn dwyn ynghyd brosiectau a syniadau sy'n ymwneud ag amrywiaeth o themâu, gan gynnwys:

Tai a datblygiad yn y dyfodol
Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth
Cyfleusterau, Asedau, Iechyd a Lles
Symud o gwmpas
Hyrwyddo Colwyn Werdd
Busnes, Manwerthu a Sgiliau

Mae'n ymwneud â throi syniadau yn weithredoedd — o brosiectau cymunedol bach i fentrau adfywio mwy.
Ble rydych chi'n ffitio i mewn?

Fel Clerc Cynorthwyol, byddwch yn rhan o'r gwaith ehangach sy'n helpu i gyflawni'r Cynllun Lle.

Gallai hyn olygu cefnogi digwyddiadau, helpu gydag ymgysylltu â'r gymuned, hyrwyddo mentrau, neu weithio ochr yn ochr â phartneriaid sy'n cyflawni prosiectau lleol.

Mae'n gyfle i weld sut mae gweledigaeth hirdymor yn troi'n weithgareddau gwirioneddol ar lawr gwlad — a sut mae eich rôl chi'n cyfrannu at y darlun ehangach hwnnw.

Eich Cynghorwyr Lleol

Mae'r Cyngor Tref wedi'i rannu'n chwe ardal, a elwir yn wardiau, ac mae gan bob ward ei gynrychiolwyr etholedig eu hunain. Mae'r chwe ward hyn yn ffurfio pum adran etholiadol (mae adran etholiadol Llandrillo yn Rhos yn cynnwys wardiau Dinarth a Rhos). Mae mapiau manwl a gwybodaeth ystadegol amdanynt ar gael ar wefan CBS Conwy: http://www.conwy.gov.uk/en/Council/Statistics-and-research/Prof iles-and-summaries/Statistical-prof iles-for-wards-electoral-divisions.aspx

Gwasanaethodd y canlynol ar y cyngor lleol yn ystod blwyddyn ddinesig Mai 2025:

Rhos	Dinarth	Rhiw
Cyng Chris Brockley Cyng Hannah Fleet Cyng Jo Nuttall Cyng Greg Wynne Cyng Ann Jones	Cyng David Wilkins Cyng Phillip Ashe Cyng Lisa Wilkins	Cyng John Clayton Cyng Paul Hughes Cyng Debra Jones Cyng Ricki Owen Cyng Tina Lee
Glyn	**Eirias**	**Colwyn**
Cyng Christopher Hughes Cyng Abdul Khan Cyng Tom MacLean Rhos Cyng Jo Nuttall Cyng Tomos Davies	Cyng Neil Coverley Cyng Chris Bell Cyng Keena Roberts	Cyng David Carr Cyng Jason Higgins Cyng Sandra McAllister Cyng Stephen Price



Mae manylion cyswllt eich aelodau etholedig ar gael ar ein gwefan: http://www.colwyn-tc.gov.uk/town-council/councillors/

Tîm Staff

Mae gan y Cyngor dîm bach o bedwar aelod o staff swyddfa, ac mae Neuadd y Dref fel arfer ar agor bob dydd (Dydd Llun i Ddydd Gwener) rhwng 9.00am a 4.30pm.



Rachael Gill
Clerc y Dref a Rheolwraig y Cynllun Lle



Pam Everley
Dirprwy Clerc (SCC) – Swyddog Cyllid Cyfrifol

Gall fod yn chi?

Clerc Cynorthwyol



Josh Iacobellis
Prentis Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol



I wneud cais: https://www.colwyn-tc.gov.uk/we-are-recruiting-assistant.../